



STRICTLY EMBARGOED PRESS RELEASE: EMBARGOED FOR 00:01 9 JUNE 2025

MEDIA CONTACTS:

Sophie Teall | sophie.teall@zsl.org | press.office@zsl.org | 07890039163

Matthew Jones | Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk | 029 2046 4227

INTERVIEWS: Available on request (Welsh and English language)

IMAGES AND VIDEOS AVAILABLE [HERE](#)

Cymraeg isod



Angelshark in Cardigan Bay (c) Jake Davies | JD Scuba | Project SIARC

Sign of hope for Wales' Critically Endangered shark

Lower likelihood of fishers encountering angelsharks suggests 70% decline may be overestimate

Previous estimates for declines of Critically Endangered angelsharks in Wales may have been overestimated, suggests ZSL-led study, identifying how changes to fishing practices have decreased chances of fishers encountering native species.

Published today (**9 June 2025**) in *People & Nature*, a paper from international conservation charity ZSL (Zoological Society of London), Natural Resources Wales (NRW) and Welsh fishing organisations reveals how a series of changes within the Welsh fishing sector – such as reduced angling efforts and decreased overlap between fishing activities and angelshark habitats – have led to a decreased likelihood of fishers encountering the threatened angelsharks.

This finding comes as the team confirm how new techniques could help them build a more accurate picture. Monitoring the DNA left by angelsharks in their environment could revolutionise their ability to understand how these Critically Endangered fish are faring by reducing reliance on chance encounters.

Using the expertise of fishers who have been working across the country's coastline for over half a century, the paper's authors sought to examine previous estimates of angelshark populations. Previous studies suggest that angelshark numbers have declined by 70% since 1970 – however challenges with monitoring the rare, hard-to-spot species mean that much of our current scientific understanding comes from fishing reports of accidental catches.

With the study finding that the chances of fishers encountering angelsharks has decreased due to changes in fishing practices since the 1960s, these estimates could be a reflection of the challenges involved in monitoring angelsharks in Welsh waters, which are believed to be one of the last strongholds in the north east Atlantic for the vulnerable species.

Francesca Mason, lead author and ZSL researcher at the Institute of Zoology's Ocean Predator Lab, said: "This finding offers hope for this Critically Endangered native species. Angelsharks globally have been pushed to the brink of extinction due to damage to their underwater habitat – and although once widespread in waters around the British Isles, this charming yet shy shark is now a rare sight."

Angelsharks are speckled, caramel-coloured flattened sharks that can grow up to 2.4m long, and the only angelshark species found in the Atlantic waters of north-east Europe. They are normally spotted either slowly swimming along the seafloor or buried underneath its sandy surface, waiting for smaller fish to swim past for them to catch.

The team from ZSL and Natural Resources Wales (NRW) worked with the Welsh Fishermen's Association/Cymdeithas Pysgotwyr and Angling Cymru Sea Anglers to interview 27 fishers about their perceptions on ecological, legislative and socio-economic factors that influenced fishing efforts for boats operating in Welsh waters between 1968 and 2019.

While a handful of the 45 factors identified by the team likely increased the chances of angelshark sightings, the majority of factors – such as changes in target species altering where fishers operated, new commercial fishing regulations, and an increase in usage of species-specific gear – mean that it is now less likely fishers will interact with angelsharks, leading to fewer sightings.

Francesca explained: "Identifying how changes to fishing practices over the last 51 years have impacted our ability to monitor them indicates that there may be more angelsharks swimming off the Welsh coast than we previously thought – we're just having a harder time spotting them. While this is a good sign if less angelsharks are being caught accidentally, it also means we now need new ways to monitor them to build a more accurate picture of how these sharks are doing. The work also highlights why conservation works best when we bring people together and combine the knowledge of those living alongside these creatures with cutting-edge research and science."

Typically found in sandy inshore habitats, angelsharks are vulnerable to unsustainable human activities. They have been listed as Critically Endangered on the IUCN Red List since 2006, and are the fifth most Evolutionarily Distinct and Globally Endangered (EDGE) shark species, representing a unique branch of the tree of life at high risk of disappearing forever.

Led by ZSL and NRW, Angel Shark Project: Wales is leading work with Welsh fishers and communities to safeguard the species, as part of the wider work of Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) collaborating with fishers to better understand sharks, skates and rays in Wales

while also inspiring and empowering school groups to learn about and protect the marine environment on their doorstep.

Charlie Bartlett, a charter fisher from Gwynedd and co-author on the study said: "I've spent over 50 years working along the Welsh coast, and over the years I've come to know these waters inside out. With their large, flat fins, Angelsharks are unlike any other shark we see here - and over the years I've been fortunate to encounter the species a number of times.

"Ever since I started working out on the boats, I've been interested in understanding more about the marine life in the area - where being part of Angel Shark Project: Wales has been beneficial in understanding more about this unique shark species in the area. It's been great to share personal experiences, pictures and logbook information that have helped to better understand Angelsharks over the years. This information not just being important for the species itself but also inspiring the next generations to learn more about fishing heritage in Wales and the local marine environment."

Given their elusive nature and the low visibility of the often-choppy waters of the British Isles, most population data on this species has come from chance-sightings. Recently published ZSL-led paper offers a new way of monitoring the species by looking not for the sharks themselves but for their genetic material in the water, known as environmental DNA (eDNA). eDNA can build up in the shark's surroundings through the shedding of dead skin cells or blood loss from a wound, allowing scientists to identify their presence without relying on chance sightings.

Jake Davies, Technical Specialist for Project SIARC at ZSL and NRW who worked on both studies, explained: "With their excellent camouflage, one of the hardest challenges we face studying angelsharks is simply finding them. eDNA allows us to study species without having to spot them. By studying eDNA in Cardigan and Carmarthen Bays, we've confirmed the presence of a range of native sharks, skates and rays - including angelsharks - in these more turbulent waters where other monitoring methods aren't as effective. Fishers today may be less likely to come across angelsharks than they were 50 years ago, but through combining this technique with local knowledge, we can continue building a stronger picture of their status and distribution along the Welsh coast."

This work was made possible thanks to support of On the Edge, the National Lottery Heritage Fund, Welsh Government and the Welsh Government's Nature Networks Fund which was distributed by the National Lottery Heritage Fund.

ZSL believes nature can recover, and that conservation is most effective when driven by science. We call for science to guide all global decisions on environment and biodiversity and build a healthier future for wildlife, people and the planet. Find out more and support ZSL's world-leading, collaborative science and conservation work at www.zsl.org

-ENDS-

EDITORS' NOTES

STRICTLY EMBARGOED PRESS RELEASE: EMBARGOED FOR 00:01 9 JUNE 2025

MEDIA CONTACT: Sophie Teall | sophie.teall@zsl.org | press.office@zsl.org | 07890039163

IMAGES AND VIDEOS AVAILABLE [HERE](#)

The full paper is available to read [here](#) (live from 00:01 9 June 2025)

ZSL Press Office

Sophie Teall Sophie.Teall@zsl.org
07789 043 843

NRW Communications Office

Matthew Jones Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
029 2046 4227 (24hrs)

Angelshark vs angel shark:

The use of angel shark (as two words) refers to multiple species in the family Squatinidae, while angelshark (as one word) is used to refer to one species, *Squatina squatina*.

ZSL (Zoological Society of London)

We're ZSL, a science-driven conservation charity working to restore wildlife in the UK and around the world. We work to help wildlife and people thrive together. Guided by a scientific approach and passion for nature, we lead conservation, shape agendas and influence change to protect and restore nature. We are committed to protecting species, restoring habitats, training conservationists and creating change for nature. Visit www.zsl.org for more information.

Natural Resources Wales

We're leading the way in the challenge of ensuring Wales can survive and thrive against the backdrop of the nature, climate and pollution emergencies - advising and regulating industry, and working with partners to improve the quality of our waters, the air we breathe and the land and special places that we manage sustainably. From flooding to pollution incidents, we're always braced to keep people and wildlife safe from the impacts of environmental incidents 24/7. Every decision we make is rooted in evidence, the expertise of our colleagues and the passion of the people living in the communities that we work alongside every day.

For more information www.naturalresources.wales

Communications office: 029 2240 5304 / communications@naturalresources.wales (24hrs)

Project SIARC & Angel Shark Project: Wales

Project SIARC is an expansion of Angel Shark Project: Wales (ASP:W) which was set up in 2018. Since then, it has worked with fishers and local communities to gather over 2,000 angelshark records, alongside carrying out research to better understand the ecology of the species in Wales. The first underwater footage of an angelshark was captured in September last year by Project SIARC Coordinator Jake Davies. The angelshark is listed as Critically Endangered on the IUCN Red List of Threatened Species, but data gathered as part of Angel Shark Project: Wales has provided further evidence that highlights the importance of the Welsh coast for the species. Angel Shark Project: Wales will continue under the umbrella of Project SIARC to deliver the angelshark elements of the project.

Use of ZSL Images and Video

Photographs, video or graphics distributed by ZSL (Zoological Society of London) to support this media release may only be used for editorial reporting purposes for the contemporaneous illustration of events, things or the persons in the image or facts mentioned in the media release or image caption.

Images taken by Jake Davies should be credited “Jake Davies | JDScuba | Project SIARC”. Reuse of the picture or video requires further permission from the ZSL press office and/or JDScuba.

General Data Protection Regulation (GDPR)

You are currently on the Zoological Society London (ZSL) databases as a press contact. We class press contacts as the journalists, press officers and those working within science communications who have helped ensure the ZSL can continue its mission to ensure the public have access to the best scientific evidence and expertise through the news media when science hits the headlines. Due to the new [General Data Protection Regulation](#) (GDPR), we are letting you know that we hold and process your data under legitimate interest. At any time you can object to the holding or processing of your data, and we will remove you from our database. More information on what we hold, why we keep it and what we use it for is available in our [privacy statement](#). If you have any further questions, please get in touch.



DATGANIAD I'R WASG O DAN EMBARGO LLYM: O DAN EMBARGO TAN 00:01 9 MEHEFIN 2025

CYSYLLTIADAU'R CYFRYNGAU:

Sophie Teall | sophie.teall@zsl.org | press.office@zsl.org | 07890039163

Matthew Jones | Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk | 029 2046 4227

CYFWELIADAU: Ar gael ar gais (Cymraeg a Saesneg)

DELWEDDAU A FIDEOS AR GAEL [YMA](#)

English above



Maelgi ym Mae Ceredigion (c) Jake Davies | JD Scuba | Prosiect SIARC

Arwydd o obaith i un o siarcod Cymru sydd mewn perygl difrifol

Llai o bosiblwydd i bysgotwyr ddod ar draws maelgwn yn awgrymu y gallai'r gostyngiad o 70% fod yn oramcan

Mae'n bosibl bod amcangyfrifon blaenorol am ddirywiad y maelgi, sydd mewn perygl difrifol yng Nghymru, wedi'u goramcangyfrif. Dyma gasgliad astudiaeth a gynhaliwyd o dan arweiniad Cymdeithas Sŵolegol Llundain, a nododd sut mae newidiadau i arferion pysgota wedi lleihau'r siawns y bydd pysgotwyr yn dod ar draws rhywogaethau brodorol.

Wedi'i gyhoeddi heddiw (**9 Mehefin 2025**) yn y cylchgrawn *People & Nature*, mae papur gan yr elusen gadwraeth ryngwladol Cymdeithas Sŵolegol Llundain, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau pysgota Cymru yn datgelu sut mae cyfres o newidiadau yn y sector pysgota yng Nghymru – megis llai o bysgota a llai o orgyffwrdd rhwng gweithgareddau pysgota a chynefinoedd y maelgi – wedi arwain at ostyngiad yn y tebygolrwydd y bydd pysgotwyr yn dod ar draws y creadur hwn sydd o dan fygythiad.

Daw'r canfyddiad hwn wrth i'r tîm gadarnhau sut y gallai technegau newydd eu helpu i lunio darlun mwy cywir. Gallai monitro'r DNA a gaiff ei adael gan y maelgi yn ei amgylchedd chwyldroi eu gallu i ddeall sut mae'r pysgodyn hwn, sydd mewn perygl difrifol, yn ffynnu, trwy leihau eu dibyniaeth ar gyfarfyddiadau damweiniol.

Gan ddefnyddio arbenigedd pysgotwyr sydd wedi bod yn gweithio ar hyd a lled yr arfordir ers dros hanner canrif, ceisiodd awduron y papur archwilio amcangyfrifon blaenorol o boblogaethau'r maelgi.

Mae astudiaethau blaenorol yn awgrymu bod niferoedd y maelgi wedi gostwng 70% ers 1970 – fodd bynnag, mae'r heriau o ran monitro'r rywogaeth brin hon, sydd yn anodd ei gweld, yn golygu bod llawer o'r dealltwriaeth wyddonol gyfredol yn dod o adroddiadau pysgota am rai sy'n cael eu dal yn ddamweiniol.

Gyda'r astudiaeth yn canfod bod y tebygolrwydd y bydd pysgotwyr yn dod ar draws maelgi wedi lleihau oherwydd newidiadau i arferion pysgota ers y 1960au, gallai'r amcangyfrifon hyn fod yn adlewyrchiad o'r heriau sy'n gysylltiedig â monitro'r maelgi yn nyfroedd Cymru, y credir eu bod yn un o gadarnleoedd olaf y rhywogaeth dan fygythiad hon yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd.

Dywedodd Francesca Mason, prif awdur ac ymchwilydd Cymdeithas Sŵlegol Llundain yn Labordy Ysglyfaethwyr Cefnforoedd y Sefydliad Sŵleg: "Mae'r canfyddiad hwn yn cynnig gobaith i'r rhywogaeth frodorol hon sydd mewn perygl difrifol. Mae'r maelgi ar fin diflannu yn fyd-eang oherwydd y difrod sydd wedi'i wneud i'w gynefin tanddwr – ac er bod ei wasgariad yn eang yn y dyfroedd o amgylch Ynysoedd Prydain ar un adeg, mae'r siarc hudolus ond swil hwn bellach yn olygfa brin."

Mae maelgwn yn siarcod gwastad brith, lliw caramel a all dyfu hyd at 2.4m o hyd, a dyma'r unig rywogaeth o faelgi a geir yn nyfroedd yr Iwerydd yng ngogledd-orllewin Ewrop. Fel arfer, fe'u gwelir naill ai'n nofio'n araf ar hyd gwely'r môr neu wedi'u claddu o dan yr wyneb tywodlyd yn aros am bysgod llai i nofio heibio iddynt er mwyn iddynt eu dal.

Gweithiodd y tîm o Gymdeithas Sŵlegol Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Chymdeithas Pysgotwyr Cymru a Genweirwyr Môr Angling Cymru i gyfwrdd 27 o bysgotwyr am eu canfyddiadau o'r ffactorau ecolegol, deddfwriaethol a chymdeithasol-economaidd a ddylanwadodd ar ymdrechion pysgota cychod yn nyfroedd Cymru rhwng 1968 a 2019.

Er bod llond llaw o'r 45 o ffactorau a nodwyd gan y tîm yn debygol o gynyddu'r siawns o weld maelgwn, mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau – megis newidiadau yn y rhywogaethau targed yn newid ym mhle yr oedd y pysgotwyr yn pysgota, rheoliadau pysgota masnachol newydd, a chynnydd yn y defnydd o offer penodol i rywogaethau – yn golygu ei bod bellach yn llai tebygol y bydd pysgotwyr yn dod ar draws maelgwn, sy'n golygu eu bod yn cael eu gweld yn llai aml.

Esboniodd Francesca: "Mae nodi sut mae newidiadau i arferion pysgota dros y 51 mlynedd diwethaf wedi effeithio ar ein gallu i'w monitro yn dangos y gallai mwy o faelgwn fod yn nofio oddi ar arfordir Cymru nag a feddylion yn flaenorol – ond ei bod yn anoddach i ni eu gweld. Er ei fod yn arwydd da bod llai o faelgwn yn cael eu dal yn ddamweiniol, mae hefyd yn golygu bod angen bellach inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o'u monitro er mwyn creu darlun mwy cywir o'u sefyllfa. Mae'r gwaith hefyd yn tynnu sylw at y rheswm pam bod cadwraeth yn gweithio orau pan fyddwn yn dod â phobl ynghyd ac yn cyfuno gwybodaeth y rhai sy'n byw ochr yn ochr â'r creaduriaid hyn ag ymchwil a gwyddoniaeth arloesol."

Mae'r maelgi yn cael ei ganfod fel arfer mewn cynefinoedd tywodlyd ar y glannau ac mae'n agored i niwed gan weithgareddau dynol anghynaliadwy. Mae wedi'i restru fel creadur sydd mewn perygl difrifol ar restr goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ers 2006, a hwn yw'r pumed siarc mwyaf arwahanol yn esblygiadol ac mewn perygl yn fyd-eang, gan gynrychioli cangen unigryw ar wahân o bren y bywyd sydd mewn perygl mawr o ddiflannu am byth.

O dan arweiniad Cymdeithas Sŵolegol Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Prosiect Maelgi: Cymru yn arwain gwaith gyda physgotwyr a chymunedau Cymru i ddiogelu'r rhywogaeth, fel rhan o waith ehangach Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau), sy'n cydweithio â physgotwyr i ddeall siarcod a morgathod yng Nghymru yn well, wrth ysbrydoli a grymuso grwpiau ysgol i ddysgu am yr amgylchedd morol sydd ar eu stepen drws a'i amddiffyn.

Dyweddodd Charlie Bartlett, pysgotwr siarter o Wynedd a chyd-awdur yr astudiaeth: "Rydw i wedi treulio dros 50 mlynedd yn gweithio ar hyd arfordir Cymru, a thros y blynyddoedd rydw i wedi dod i adnabod y dyfroedd hyn tu chwith allan. Gyda'i esgyll mawr, gwastad, mae'r maelgi yn wahanol i unrhyw siarc arall rydyn ni'n ei weld yma – a thros y blynyddoedd rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i ddod ar draws y rhywogaeth nifer o weithiau.

"Ers i mi ddechrau gweithio ar y cychod, rydw i wedi bod â diddordeb mewn deall mwy am fywyd morol yr ardal – ac mae bod yn rhan o Brosiect Maelgi: Cymru wedi bod o fudd er mwyn deall mwy am y rhywogaeth unigryw hon o siarcod yn yr ardal. Mae wedi bod yn wych gallu rhannu profiadau personol, lluniau a gwybodaeth llyfr log sydd wedi helpu i ddod i ddeall y maelgi yn well dros y blynyddoedd. Mae'r wybodaeth hon nid yn unig yn bwysig i'r rhywogaeth ei hun ond mae hefyd yn ysbrydoli'r genedlaethau nesaf i ddysgu mwy am y dreftadaeth bysgota yng Nghymru a'r amgylchedd morol lleol."

Oherwydd eu bod yn anodd eu gweld a bod gwelededd yn nyfroedd Ynysoedd Prydain, sydd yn aml yn arw, yn isel, mae'r rhan fwyaf o ddata poblogaeth ar gyfer y rhywogaeth hon wedi dod o ganfyddiadau ar hap. Mae papur a gyhoeddwyd yn ddiweddar o dan arweiniad Cymdeithas Sŵolegol Llundain yn cynnig ffordd newydd o fonitro'r rhywogaeth, drwy chwilio, nid am y siarcod eu hunain, ond am eu deunydd genetig yn y dŵr, a elwir yn DNA amgylcheddol (eDNA). Gall eDNA gronni yn amgylchoedd y siarc pan fydd yn colli celloedd o groen marw neu'n colli gwaed o glwyf, gan ganiatáu i wyddonwyr nodi eu presenoldeb heb ddibynnu ar ganfyddiadau ar hap.

Esboniodd Jake Davies, Arbenigwr Technegol ar gyfer Prosiect SIARC yng Nghymdeithas Sŵolegol Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru a fu'n gweithio ar y ddwy astudiaeth: "Gyda'u cuddliw rhagorol, un o'r heriau anoddaf sy'n ein hwynebu wrth astudio maelgwn yw dod o hyd iddyn nhw. Mae eDNA yn caniatáu inni astudio rhywogaethau heb i ni orfod eu gweld. Drwy astudio eDNA ym Mae Ceredigion a Bae Caerfyrddin, rydym wedi cadarnhau presenoldeb amrywiaeth o siarcod a morgathod brodorol – gan gynnwys y maelgi – yn y dyfroedd mwy garw hyn lle nad yw dulliau monitro eraill mor effeithiol. Efallai fod pysgotwyr heddiw yn llai tebygol o ddod ar draws y maelgi nag yr oeddent 50 mlynedd yn ôl, ond trwy gyfuno'r dechneg hon â gwybodaeth leol, gallwn barhau i greu darlun cryfach o'u statws a'u dosbarthiad ar hyd arfordir Cymru."

Roedd y gwaith hwn yn bosibl diolch i gefnogaeth On the Edge, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a Chronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, a ddosbarthwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae Cymdeithas Sŵolegol Llundain yn credu y gellir adfer natur, a bod cadwraeth fwyaf effeithiol pan gaiff ei hysgogi gan wyddoniaeth. Rydym yn galw ar wyddoniaeth i arwain pob penderfyniad byd-eang ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth ac i adeiladu dyfodol iachach ar gyfer bywyd gwyllt, pobl a'r planed. Gallwch ddarganfod mwy am waith gwyddoniaeth a chadwraeth cydweithredol arloesol Cymdeithas Sŵolegol Llundain, a'i gefnogi, yma: www.zsl.org

-DIWEDD-

NODIADAU I OLYGYDDION

DATGANIAD I'R WASG O DAN EMBARGO LLYM: O DAN EMBARGO TAN 00:01 9 MEHEFIN 2025

CYSWLLT Y CYFRYNGAU: Sophie Teall | sophie.teall@zsl.org | press.office@zsl.org | 07890039163

DELWEDDAU A FIDEOS AR GAEL [YMA](#)

Mae'r papur llawn ar gael i'w ddarllen [yma](#) (yn fyw o 00:01 9 Mehefin 2025 ymlaen)

Swyddfa'r Wasg Cymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL)

Sophie Teall Sophie.Teall@zsl.org

07789 043 843

Swyddfa Gyfathrebu Cyfoeth Naturiol Cymru

Matthew Jones Cyfathrebu@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

029 2046 4227 (24 awr)

Enw'r maelgi:

Gall y term maelgi weithiau gyfeirio at nifer o rywogaethau yn y teulu Squatinidae, ond fe'i defnyddir yma i gyfeirio at un rhywogaeth, sef *Squatina squatina*.

Cymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL)

Ni yw Cymdeithas Sŵolegol Llundain, elusen gadwraeth sy'n cael ei hysgogi gan wyddoniaeth ac sy'n gweithio i adfer bywyd gwyllt yn y DU ac ar draws y byd. Rydym yn gweithio i helpu bywyd gwyllt a phobl i ffynnu gyda'i gilydd. Wedi'n hysgogi gan ymagwedd wyddonol ac angerdd dros natur, rydym yn arwain ar waith cadwraeth, yn llunio agendâu, ac yn dylanwadu ar newid i amddiffyn ac adfer natur. Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn rhywogaethau, adfer cynefinoedd, hyfforddi cadwraethwyr a chreu newid ar gyfer natur. Ewch i www.zsl.org i gael rhagor o wybodaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym ar flaen y gad yn yr her o sicrhau y gall Cymru oroesi a ffynnu yn wyneb yr argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd – gan gynghori a rheoleiddio diwydiant, a gweithio gyda'n partneriaid i wella ansawdd ein dyfroedd, yr aer yr ydym yn ei anadlu, a'r tir a'r lleoedd arbennig yr ydym yn eu rheoli'n gynaliadwy. Boed yn llifogydd neu'n achosion o lygredd, rydym bob amser yn barod i gadw pobl a bywyd gwyllt yn ddiogel rhag effeithiau digwyddiadau amgylcheddol, unrhyw awr o'r dydd a'r nos. Rydym yn gwneud pob penderfyniad ar sail tystiolaeth, arbenigedd ein cydweithwyr, a brwdfrydedd y bobl sy'n byw yn y cymunedau yr ydym yn gweithio ochr yn ochr â nhw bob dydd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.cyfoethnaturiol.cymru

Y swyddfa gyfathrebu: 029 2240 5304 / cyfathrebu@cyfoethnaturiol.cymru (24awr)

Prosiect SIARC a Phrosiect Maelgi: Cymru

Mae Prosiect SIARC yn ehangiad o Brosiect Maelgi: Cymru, a sefydlwyd yn 2018. Ers hynny, mae wedi gweithio gyda physgotwyr a chymunedau lleol i gasglu dros 2,000 o gofnodion maelgwn, ochr yn ochr â chynnal ymchwil i ddeall ecoleg y rhywogaeth yng Nghymru yn well. Cafodd y ffilm danddwr gyntaf o faelgi ei recordio yn 2021 gan Gydlynnydd Prosiect SIARC, Jake Davies. Nodir bod y maelgi mewn perygl

difrifol ar restr goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur o rywogaethau dan fygythiad, ond mae data a gasglwyd fel rhan o Brosiect Maelgi: Cymru wedi darparu tystiolaeth bellach sy'n amlygu pwysigrwydd arfordir Cymru i'r rhywogaeth. Bydd Prosiect Maelgi: Cymru yn parhau o dan faner Prosiect SIARC i ddarparu elfennau'r prosiect sy'n ymwneud â maelgwn.

Defnyddio lluniau a fideos Cymdeithas Sŵolegol Llundain

Dim ond at ddibenion adrodd golygyddol er mwyn dangos digwyddiadau, pethau neu unigolion o'r un cyfnod yn y delweddau neu ffeithiau a grybwyllir yn y datganiad i'r wasg neu bennawd llun y gellir defnyddio'r lluniau, fideos neu graffigau a ddosberthir gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL) i gefnogi'r datganiad hwn i'r wasg. Dylid rhoi'r clod am y delweddau a dynnwyd gan Jake Davies i "Jake Davies | JDScuba | Project SIARC". Mae angen caniatâd pellach gan swyddfa'r wasg Cymdeithas Sŵolegol Llundain a/neu JDScuba i ailddefnyddio'r llun neu fideo.

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Rydych ar gronfeydd data Cymdeithas Sŵolegol Llundain fel cyswllt yn y wasg ar hyn o bryd. Rydym yn ystyried cysylltiadau'r wasg fel newyddiadurwyr, swyddogion y wasg a'r rhai sy'n gweithio ym maes cyfathrebu gwyddoniaeth sydd wedi helpu i sicrhau y gall Cymdeithas Sŵolegol Llundain barhau â'i chenhadaeth i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at y dystiolaeth ac arbenigedd gwyddonol gorau trwy'r cyfryngau newyddion pan fydd gwyddoniaeth yn cyrraedd y penawdau. Oherwydd [y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data](#) (GDPR) newydd, rydym yn eich hysbysu ein bod ni'n cadw ac yn prosesu eich data er budd cyfreithlon. Gallwch ein gwrthod rhag cadw neu brosesu eich data ar unrhyw adeg, a byddwn yn eich dileu o'n cronfa ddata. Ceir mwy o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei gadw, pam ein bod yn ei gadw, a'r hyn rydym yn ei ddefnyddio ar ei gyfer yn ein [datganiad preifatrwydd](#). Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu.